## ADRODDIAD I’R PWYLLGOR CYNLLUNIO
********

**Math y Cais : Cais am orchymyn dan Ddeddf Rheoli Traffig y Ffyrdd 1984**

**Cymuned: Llanberis a Nant Peris**

**Ward: Llanberis**

**Bwriad: Gorchymyn Cyngor Gwynedd (amryw ffyrdd Sirol, Ardal Arfon) (Cyfyngiad cyflymder 30 M.Y.A.) 2023**

**Lleoliad: Arfon**

---

**Argymhelliad:**

Cymeradwyo cadw cyfyngiad cyflymder yn 30mya ar ddarn o’r ger Pendre Castell ar y A4086 a chadw cyfyngiadau cyflymder yn 30mya ar y A4086 rhwng maes parcio a theithio Nant Peris ag Pont Gwastadnant.

---

**Cefndir a disgrifiad**

Cafodd Gorchymyn Ffyrdd Cyfyngedig (Terfyn Cyflymder 20mya) (Cymru) 2022 ei wneud gan Weinidogion Cymru ar 13 Gorffennaf 2022 yn dilyn penderfyniad Senedd Cymru.

Cyn 17 Medi 2023 dylai awdurdodau lleol rhoi ystyried i ba ffyrdd cyfyngedig a dylai aros yn 30mya. I’r perwyl hynny, mae’r Cyngor wedi cyflwyno gorchymyn 30mya ar gyfer ardaloedd Arfon, Dwyfor a Meirionnydd.

Mae’r gorchymyn ardal Arfon yn cynnwys bwriad i gadw’r cyfyngiad cyflymder yn 30mya ar 37 rhannau o’r ffordd yn yr ardal. Mae Cyngor Gwynedd wedi derbyn gwrthwynebiad i’r gorchymyn sy’n berthnasol i 2 rhan benodol sef;-

| | |
|---|---|
| **Llanberis**<br>Ffordd Dosbarth 1 - A4086 yn mynd heibio Pentre Castell | O bwynt oddeutu 42 metr i'r de-ddwyrain o'i chyffordd â Rhes Fictoria am bellter o 679 metr i gyfeiriad cyffredinol y de-ddwyrain. |
| **Nant Peris**<br>Ffordd Dosbarth 1 - A4086 Gwastadnant | O bwynt sydd oddeutu 14 metr i'r de-ddwyrain o'i chyffordd â maes Parcio a Theithio Nant Peris i bwynt oddeutu 34 metr i'r dwyrain o Bont Gwastadnant i gyfeiriad y de-ddwyrain. |

**Yr Ymgynghoriad**

Fel rhan o’r cynllun 20mya, sy’n cael ei arwain gan yr Uned Traffig, ymgynghorwyd ar y cynllun arfaethedig gyda rhanddeiliaid ym mis Rhagfyr 2022 fel rhan o’r broses cyn ymgynghori. Yn ystod y cyfnod, derbyniwyd sylwadau a chyflwynwyd newidiadau i’r cynlluniau.

Ymgynghorwyd ymhellach gyda’r rhanddeiliaid a’r aelodau o’r cyhoedd gyda’r cynlluniau diwygiedig ym mis Ebrill 2023. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad hwn drwy gyhoeddi ein cynlluniau ar y we a hyrwyddo’r cynllun drwy hysbysu’r rhanddeiliaid yn ogystal â hyrwyddo’r ymgynghoriad drwy gyfryngau cymdeithasol.

Yn fis Gorffennaf 2023, fel rhan o’r broses ymgynghori statudol, derbyniwyd E-bost yn gwrthwynebu Gorchymyn Cyngor Gwynedd (amryw ffyrdd Sirol, Ardal Arfon) (Cyfyngiad cyflymder 30 M.Y.A.) 2023 gan Cyngor Cymuned Llanberis i’r rhannau o’r gorchymyn.

## Y gwrthwynebiadau

**Llanberis - Pentre Castell**
*(Gweler copi o ohebiaeth y gwrthwynebydd yn Atodiad A)*

| Rheswm dros y gwrthwynebiad | Ymateb y Cyngor |
|---|---|
| Nid oes rheswm wedi ei gyflwyno gan y Cyngor Cymuned. | Mae Swyddogion o’r farn y dylai rhan yma o’r ffordd aros yn 30mya oherwydd;<br><br>1. mae’r ffordd yn ffordd Dosbarth cyntaf<br><br>2. bod y nifer o dai ar ymyl y ffordd yn llai na 20 adeilad/km*.<br><br>3. mae’r tai sydd heb ffordd mynediad preifat o’r ffordd fawr ar un ochr i’r ffordd yn unig. |

**Nant Peris – Gwastadnant**
*(Gweler copi o ohebiaeth y gwrthwynebydd yn Atodiad A)*

| Rheswm dros y gwrthwynebiad | Ymateb y Cyngor |
|---|---|
| Nid oes rheswm wedi ei gyflwyno gan y Cyngor Cymuned. | Mae Swyddogion o'r farn y dylai rhan yma o'r ffordd aros yn 30mya oherwydd;<br><br>1. mae'r ffordd yn ffordd Dosbarth cyntaf<br><br>2. bod y nifer o dai ar ymyl y ffordd yn llai na 20 adeilad/km*.<br><br>3. Effaith ar wasanaethau brys (*Nid oes gan Dîm Achub Mynydd Llanberis yr hawl i yrru a'r cyflymder sy'n uwch na'r cyfyngiadau cyflymder*) |

* Canllawiau; *Pennu eithriadau i'r terfyn cyflymder diofyn o 20mya ar ffyrdd cyfyngedig, Llywodraeth Cymru*

---

## Asesiad o'r bwriad

Mae'r ffyrdd canlynol yn 30mya ar hyn o bryd, felly nid yw'r gorchymyn canlynol yn cynnig unrhyw newid i'r sefyllfa bresennol ar y ffordd. Er bod swyddogion yn llwyr ddeall dymuniadau Cyngor Cymuned Llanberis, nid yw'r dymuniadau hynny'n cyd-fynd â chanllawiau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u gosod. Y prif resymau dros gadw'r ffyrdd yn 30mya yw bod y ffyrdd yn Ddosbarth Cyntaf (A), ac nid yw nifer o adeiladau ar ochr y ffordd yn cyrraedd y trothwy o 20 adeilad/Km*.

Fodd bynnag, bydd yr Uned Draffig yn parhau i fonitro traffig ar y rhannau yma o'r ffordd gyda'r bwriad o adolygu'r penderfyniad ymhen 6 mis.

**Ddeddf Cydraddoldeb 2010**

Mae'r Cyngor yn ddarostyngedig i ddyletswyddau  sector gyhoeddus dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (gan gynnwys dyletswyddau sector gyhoeddus Gymreig). Yn unol â'r dyletswyddau cyfreithiol yma wrth wneud penderfyniadau mae rhaid i'r Cynghorau dalu sylw dyledus i'r angen (1) i ddiddymu gwahaniaethu anghyfreithiol (2) hyrwyddo cyfle cyfartal a (3) meithrin perthnasau da ar sail y nodweddion gwarchodedig. A dal sylw dyledus at y ddyletswydd gymdeithasol economaidd dan Adran 1 o'r Ddeddf. Mae gofyn i'r pwyllgor ddal sylw at ei ganfyddiadau wrth ddod i benderfyniad.

Nid yw'r asesiad yn adnabod unrhyw ardrawiad penodol yn deillio o'r penderfyniad.

**Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ynglŷn â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd , amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r ddeddf yn gosod dyletswydd llesiant ar gyrff cyhoeddus sydd wedi ei anelu at gyflawni 7 o nodau llesiant sef Cymru sydd yn llewyrchus, gydnerth, iachach,

mwy cyfartal gyda chymunedau cydlynus a diwylliant bywiog lle mae’r Gymraeg yn ffynnu ac sy’n gyfrifol ar lefel byd eang. Mae’r argymhelliad wedi ei baratoi gan ddal sylw at ofynnon y Ddeddf a chyfarch y pum ffordd o weithio

---

**Casgliadau**

Mae’r Gorchymyn Ffyrdd Cyfyngedig (Terfyn Cyflymder 20mya) (Cymru) 2022 sydd wedi’i gyflwyno gan Lywodraeth Cymru yn ddadleuol. Mae swyddogion, felly, yn awyddus i gadw cyfyngiadau ar 30mya mewn mannau priodol er mwyn lleihau effaith y newid ar drigolion Wynedd. Yn unol â chanllawiau'r llywodraeth, rydym yn awyddus iawn i leihau effaith y cyfyngiad ar ein rhwydwaith strategol, yn enwedig mewn lleoliadau gyda dwysedd tai yn isel. O ganlyniad, mae swyddogion yn awgrymu y dylai cadw'r cyfyngiadau ar y ffyrdd canlynol yn 30mya am y tro ond hefyd rhoi addewid y byddai modd adolygu'r penderfyniad o fewn cyfnod o 6 mis.

**Argymhelliad:**

Cymeradwyo’r cyflwyno’r eithriadau fel sydd wedi ei nodi.

**Atodiadau**

A - Copi o Lythyr yn gwrthwynebu .
B - Map o’r cynllun arfaethedig.

**Atodiad A – Llythyr Gwrthwynebiad**

Cyfeiriaf at eich gohebiaeth ddiweddar parthed y bwriad i ostwng cyflymder uchaf yng Nghymru ym mis Medi 2023.

Nodwn fod Cyngor Cymuned Llanberis, ar y cyfan, yn gefnogol o'r bwriad i ostwng cyflymder uchaf lawr i 20mya.

Yn ei cyfarfod ar y 12fed Gorffennaf 2023 fe drafodwyd y cynllun 20 MyA sydd yn berthnasol i bentref Llanberis a pentref Nantperis.

Nodwyd barn y Cyngor Cymuned fel a ganlyn:-

***Gweithred - gofynnwyd bod y Clarc yn gohebu gyda Chyngor Gwynedd yn gwrthwynebu'r newid cychwynnol ac yn gofyn bod Cyngor Gwynedd yn addasu'r parthau cyflymder uchaf 20 MyA fel a ganlyn:-***

***<u>Llanberis</u> – o gyfeiriad Llanberis, ymestyn y parth 20 MyA drwy ardal Pentrecastell at gyfeiriad Nantperis hyd at derfyn y parth 30 MyA presennol.***

***<u>Nantperis</u> – o gyfeiriad Llanberis, ymestyn y parth 20 MyA i gyfeiriad Bwlch Llanberis hyd at Pont Gwastadnant. Parhau gyda 30 MyA o Pont Gwastadnant hyd at derfyn y parth 30 MyA presennol.***

Mae'r Cyngor Cymuned yn hyderus y bydd Cyngor Gwynedd yn ystyried y cais am newidiadau ac yn cefnogi'r cais ac felly yn gweithredu yn unol â gofynion Cynghorwyr Cyngor Cymuned Llanberis.


Pe byddwch o'r farn byddai trafodaeth bellach yn fuddiol yna hyderaf byddai yn bosib i rai Cynghorwyr gwrdd â chwi er trafod y mater ymhellach.

Hoffwn nodi bydd y Cyngor Cymuned yn cwrdd nesaf ar y 13 Fedi 2023 sef wedi dyddiad cau'r ymgynghoriad cyhoeddus.

Edrychaf ymlaen at dderbyn eich ymateb i'r cais gan Gyngor Cymuned Llanberis maes o law.


Yn ddiffuant,

**Atodiad B - Map o'r cynllun arfaethedig**





**Llanberis - Pentre Castell**

**Atodiad B - Map o'r cynllun arfaethedig**




**Llanberis - Pentre Castell**

**Atodiad B - Map o’r cynllun arfaethedig**




Nant Peris, Gwastadnant